

# Y Pwyllgor Craffu - Cymunedau

## Adroddiad Blynyddol

2019 – 2020

### Craffu yn Sir Gaerfyrddin

[sirgar.llyw.cymru](http://sirgar.llyw.cymru)

Cyngor **Sir Gâr**  
**Carmarthenshire**  
County Council



## Cynnwys

### Rhagair y Cadeirydd

1. Cyflwyniad .....	3
2. Trosolwg o waith y Pwyllgor yn 2019/20 .....	3
2.1 Nifer y Cyfarfodydd .....	3
2.2 <b>Y Flaenraglen Waith</b> .....	3
2.3 Monitro Perfformiad / Materion Strategol .....	4
2.4 Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf .....	5
2.5 Adeiladu Mwy o Dai Cyngor - 'Ein huchelgais a'n Cynllun Gweithredu.....	6
2.6 Adroddiad Blynyddol Drafft Cyngor Sir Gaerfyrddin ar Gyfer 2018/2019 .....	6
2.7- Adroddiad Monitro Blynyddol 2018/19 - Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin a Fabwysiadwyd .....	7
2.8. Adroddiad Blynyddol 2018-19 Ynghylch Cwynion a Chanmoliaeth .....	7
2.9 Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2018/19(Cynllunio) .....	7
2.10 Fersiwn Adneuol Drafft o Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018-2033 .....	8
2.11 Credyd Cynhwysol - Y wybodaeth ddiweddaraf i Sir Gaerfyrddin.....	8
2.12 Canlyniadau Arolwg Tenantiaid y Cyngor (STAR) 2019 .....	9
2.13 – Safonau Llyfrgell Gyhoeddus Cymru 2017-2020 .....	9
2.14 Cyfrif Refeniw Tai a Phennu Rhenti Tai 2020/21 .....	9
2.15 Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy (STSG+) – 'Cyflawni'r Hyn sydd o Bwys'	10
2.16 Gorchwyl a Gorffen.....	10
2.17 Ymweliadau Safle.....	11
2.18 Sesiynau Datblygu.....	11
2.19 Atgyfeiriadau.....	12
3. Heriau .....	12
4. Gwaith yn y Dyfodol.....	13
5. Cefnogi'r Swyddogaeth Graffu .....	13
6. Presenoldeb .....	13

## Rhagair y Cadeirydd

Fel Cadeirydd y Pwyllgor hwn, mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Craffu - Cymunedau ar gyfer blwyddyn y cyngor 2019/20. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb cynhwysfawr o'r gwaith a wnaed gan y Pwyllgor yn ystod y cyfnod hwn ac yn rhoi cyfle i fyfrio ar y gwaith hwnnw.

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi parhau i fod yn gyfnod heriol i'r Cyngor a chredaf fod y Pwyllgor hwn wedi parhau i chwarae rôl adeiladol wrth graffu ar berfformiad a chyfrannu at bolisiau a phenderfyniadau allweddol y Cyngor.

Bu'r Pwyllgor yn trafod ac yn craffu ar amrywiaeth eang o bynciau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd y rhain yn cynnwys adroddiadau monitro safonol a rheolaidd yn ogystal â pholisiau a strategaethau newydd a gyflwynwyd gan y Cyngor Sir. Fodd bynnag, effeithiwyd ar ei raglen waith o ddiwedd mis Mawrth 2020 gan y pandemig Coronafeirws a gwelwyd holl gyfarfodydd y Cyngor yn cael eu canslo ac adnoddau'n cael eu hailgyfeirio i wasanaethau eraill y cyngor.

Bydd y flwyddyn sydd i ddod yn sicr yn heriol ond rwy'n hyderus y byddwn yn parhau i roi pwyslais ar wella gwasanaethau mewn modd effeithiol ac effeithlon.

Edrychaf ymlaen at yr her o gadeirio'r Pwyllgor hwn yn 2020/21, a chyda cymorth fy Is-gadeirydd a gweddill y Pwyllgor gobeithio y cawn effaith gadarnhaol ar y canlyniadau ar gyfer trigolion Sir Gaerfyrddin.

Hoffwn ddiolch hefyd i holl aelodau'r Pwyllgor am eu cyfraniadau a'u hymroddiad yn ystod 2019/20.



**Y Cynghorydd Fozia Akhtar**  
**Cadeirydd y Pwyllgor Craffu - Cymunedau**

## 1. Cyflwyniad

Mae Erthygl 6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl bwyllgorau craffu *"baratoi adroddiad blynyddol sy'n egluro gweithgareddau'r Pwyllgor dros y flwyddyn flaenorol."*

Prif nod yr adroddiad yw pwysleisio'r gwaith sydd wedi'i wneud gan y Pwyllgor Craffu - Cymunedau yn ystod 2019/20. Mae'n amlinellu gwaith posibl y Pwyllgor yn y dyfodol. Mae'n bosibl hefyd y bydd y ddogfen yn hwyluso trafodaethau am eitemau eraill a allai gael eu cynnwys mewn rhaglenni gwaith yn y dyfodol.

Cadeirir y Pwyllgor gan y Cynghorydd Fozia Akhtar ac mae'n cynnwys 13 o Aelodau Etholedig. Darperir cymorth i'r Panel gan y Tîm Gwasanaethau Democrataidd a swyddogion eraill y Cyngor pan fo angen.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu trosolwg o waith y Pwyllgor Craffu - Cymunedau yn ystod blwyddyn y cyngor 2019/20. Mae'n caniatáu i Aelodau ystyried llwyddiannau'r flwyddyn a nodi beth a weithiodd yn dda ac ymhle y gellid gwneud gwelliannau. Mae'r dadansoddiad hwn yn hanfodol i ddatblygu'r broses graffu

## 2. Trosolwg o waith y Pwyllgor yn 2019/20

### 2.1 Nifer y Cyfarfodydd

Cynhaliodd y Pwyllgor Craffu 6 cyfarfod yn ystod blwyddyn y cyngor 2019/20.

### 2.2 Y Flaenraglen Waith

Mae'r Pwyllgor Craffu yn datblygu ei Flaenraglen Waith ei hun, ac, ar y cyfan, roedd agendâu'r cyfarfodydd yn cyfateb i'r rheiny a amlinellwyd yn y Flaenraglen Waith, a gadarnhawyd gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 9 Mai 2019.

Roedd y Flaenraglen Waith yn seiliedig yn bennaf ar y meysydd allweddol a nodwyd fel amcanion yn y Strategaeth Gymunedol Integredig a'r Cynllun Gwella ynghyd ag eitemau safonol megis adroddiadau monitro perfformiad a chyllideb, adroddiadau monitro cynlluniau gweithredu a cheisiadau penodol gan y pwyllgor craffu ei hun. Gofynnwyd hefyd am adroddiadau ychwanegol gan y Pwyllgor Craffu yn ystod y flwyddyn a newidiwyd y Flaenraglen Waith yn unol â hynny.

Drwy ddatblygu'r cysyniad o Flaenraglen Waith a'r broses ar gyfer cytuno arni, mae modd i bob pwyllgor craffu benderfynu ar ei agenda waith ei hun. Mae manteision y dull hwn o weithio wedi arwain at wella'r drafodaeth a'r cyfraniadau yn ystod cyfarfodydd y pwyllgorau craffu.

Roedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi lle blaenllaw i gynaliadwyedd hirdymor o ran y modd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu dylunio a'u cyflwyno ac mae'n rhoi pwyslais ar gyrrff cyhoeddus i

weithio mewn partneriaeth â'i gilydd a'r cyhoedd er mwyn atal a mynd i'r afael â phroblemau.

Dyma brif gyfrifoldebau'r Pwyllgor Craffu - Cymunedau

- Tai – Cymdeithasol a Sector Preifat
- Polisi Cynllunio
- Adfywio Cymunedol yn cynnwys datblygu ffisegol a gwledig
- Datblygu Economaidd
- Rhaglenni Ewropeaidd a Rhaglenni sy'n cael eu Hariannu'n Allanol
- Llyfrgelloedd
- Y Celfyddydau a Theatrau
- Amgueddfeydd ac Archifau
- Cyfleusterau Cefn Gwlad
- Chwaraeon, Hamdden ac Adloniant

Er mwyn ategu'r gwaith a wnaed yn ystod cyfarfodydd ffurfiol, mae'r Pwyllgor hefyd yn cyflawni swyddogaethau craffu eraill megis Gorchwyl a Gorffen, ymweliadau â sefydliadau a ddaw o fewn ei gylch gwaith ynghyd â sesiynau datblygu i aelodau.

### 2.3 Monitro Perfformiad / Materion Strategol

[Adroddiadau Monitro Perfformiad](#) - Un o rolau pennaf y Pwyllgorau Craffu yw monitro perfformiad y gwasanaethau a'r swyddogaethau a ddaw o fewn ei gylch gwaith. Gwnânt y gwaith hwn yn bennaf drwy ystyried adroddiadau monitro perfformiad ac adroddiadau monitro cynlluniau gweithredu amrywiol. Mae'r adroddiadau monitro perfformiad yn rhoi darlun cytbwys o'r perfformiad ar draws y meysydd gwasanaeth perthnasol. Cafodd y Pwyllgor Craffu - Cymunedau yr Adroddiad Monitro Perfformiad ar gyfer Amcanion Llesiant y Cyngor 2018/19 yn ei gyfarfodydd ym mis Hydref 2019. Roedd yr adroddiadau'n canolbwyntio ar ddangosyddion tanberfformio yn bennaf.

[Fersiwn Ddrafft o Adroddiad Blynyddol Cyngor Sir Caerfyrddin 2018/19](#) - Fel rhan o'i rôl o fonitro perfformiad, cafodd y Pwyllgor wybodaeth berthnasol am strategaethau a chynlluniau allweddol y Cyngor. Un o'r prif feysydd rheoli sy'n ymwneud â'r Cyngor yw llunio adroddiad blynyddol sy'n cynnig cyfle gwych i adolygu, monitro ac edrych yn ôl, mae hyn yn ei alluogi i gofnodi gweithgarwch parhaus o ran cyflawni ei ddyletswyddau cyffredinol a phenodol. Gyda hyn mewn golwg, ym mis Mehefin 2019, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i fersiwn ddrafft o Adroddiad Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2018/19 a oedd yn cynnwys trosolwg ar adroddiadau perfformiad, a chynnydd ynghylch cynnydd pob un o'r 15 amcan llesiant a oedd o fewn ei gylch gwaith. Cafodd yr adroddiad ei lunio yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac roedd yn darparu'r canlynol:-

- Trosolwg ar berfformiad 2018/19
- Adroddiadau dwy dudalen ynghylch cynnydd pob un o'r 15 Amcan Llesiant

- Dolen gyswllt er mwyn olrhain cynnydd pob cam a tharged a bennir ar gyfer pob Amcan Llesiant
- Yn atodiadau'r adroddiad, gwybodaeth arall am berfformiad mewn perthynas â data all-dro

### **Canlyniad:**

Cymeradwyodd y Cyngor Adroddiad Blynyddol 2018/19 yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2019

[Cynlluniau Busnes Adrannol Drafft 2020-2023](#) – Ym mis Ionawr ystyriodd y Pwyllgor y Cynlluniau Busnes Drafft Adrannol 2020-2023 ar gyfer y meysydd hynny o fewn adrannau Cymunedau, y Prif Weithredwr a'r Amgylchedd a oedd yn rhan o'i gylch gwaith a oedd yn cynnwys manylion am bob un o nodau, amcanion a blaenoriaethau'r adran yn ystod y cyfnod hwnnw. Rhoddodd hyn gyfle i'r Pwyllgor ystyried y blaenoriaethau a amlinellir ar gyfer yr adrannau ar gyfer y tair blynedd, a gwneud sylwadau yn eu cylch.

[Camau Gweithredu ac Atgyfeiriadau](#) - Yn ystod blwyddyn y cyngor gwneir sawl cais am eitemau ychwanegol gan aelodau'r Pwyllgor i'w cynorthwyo i gyflawni eu rôl graffu. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am Gamau Gweithredu ac Atgyfeiriadau'n cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor sy'n darparu diweddariad ynghylch y cynnydd mewn perthynas â'r ceisiadau hyn.

## 2.4 Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf

[Adroddiadau Monitro'r Gyllideb](#) - Cafodd y Pwyllgor adroddiadau chwarterol ynghylch y cyllidebau refeniw a chyfalaf adrannol a chorfforaethol yn y cyfarfodydd ym mis Hydref, Tachwedd ac Ionawr. Galluogai'r adroddiadau hyn yr aelodau i fonitro'r gwariant ym mhob maes a'r cynnydd a wnaed o ran unrhyw waith cyfalaf.

[Strategaeth Cyllideb Refeniw 2020/21-2022/23](#) - Yn ogystal â monitro'r gyllideb bresennol, ymgynghorwyd â'r Pwyllgor hefyd ynghylch Strategaeth Cyllideb Refeniw 2020/21 i 2022/23. Roedd yr adroddiad yn rhoi'r cynigion presennol i'r Pwyllgor ynghylch y Gyllideb Refeniw ar gyfer 2020/21, ynghyd â ffigurau dangosol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2020/21 a 2022/2023.

### **Canlyniad:**

Fel rhan o'r ymgynghoriad eang a gynhaliwyd ar Strategaeth Cyllideb Refeniw 2020/21 i 2022/23, ystyriodd y Pwyllgor Craffu - Cymunedau gynigion y gyllideb gan ofyn i'r Bwrdd Gweithredol ariannu'r gost amcangyfrifedig o £150k i ysgolion cynradd ddarparu gwersi nofio. Fodd bynnag, ni symudwyd ymlaen â hynny yn rhan o gynigion y gyllideb a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2020.

O ran Rhaglen Gyfalaf 5 mlynedd 2020/21 – 2024/25, nododd y Cyngor yn ei gyfarfod ym mis Mawrth fod cyllid newydd o fewn yr Adran Cymunedau wedi cael ei ddarparu ar gyfer ailddatblygu Oriol Myrddin ac ar gyfer Canolfan Hamdden Caerfyrddin. Hefyd, nododd y Cyngor fod darparu Canolfan

Hamdden newydd yn Llanelli wedi'i gynnwys yn y cyllidebau Adfywio a'r Prif Weithredwr, yn un o brif elfennau'r cynigion ynghylch datblygiad y Pentref Llesiant.

## 2.5 Adeiladu Mwy o Dai Cyngor - 'Ein huchelgais a'n Cynllun Gweithredu

Ym mis Gorffennaf 2019, ystyriodd y Pwyllgor adroddiad ar gynigion y Cyngor i fabwysiadu cynllun adeiladu trawsnewidiol i ddarparu dros 900 o dai cyngor newydd dros gyfnod o 10 mlynedd. Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth ac argymhellion arfaethedig mewn perthynas â'r canlynol:-

- Ble a phryd y byddai'r tai'n cael eu hadeiladu;
- Yr adnoddau sydd ar gael a modelau cyflenwi
- Sut y byddai blaenoriaethau adfywio ehangach ledled y sir yn cael eu cefnogi
- Sut y byddai modd manteisio ar gyfleoedd newydd wrth iddynt ddod i'r amlwg.

Elfen hanfodol o'r adroddiad oedd darparu 300 o gartrefi newydd yn nhair blynedd gyntaf y rhaglen gyda buddsoddiad o £53m. Yn dilyn mabwysiadu'r adroddiad, roedd gwaith adeiladu wedi dechrau ar ddau gynllun yn y Garreglwyd, Pen-bre (14 o dai) a Dylan, Bynea (34 o dai) gan ddarparu 48 o dai newydd. Roedd gwaith pellach wedi'i gynllunio ar gyfer 2020 gan gynnwys 3 safle yn Nheras Glanmor, Porth Tywyn (32 o dai), Gwynfryn, Rhydaman (28 o dai) a Maespiode, Llandybie (8 o dai) yn darparu cyfanswm o 68 o dai newydd.

### **Canlyniad:**

Cymeradwywyd argymhellion yr adroddiad gan y Bwrdd Gweithredol a'r Cyngor yn eu cyfarfodydd ym mis Gorffennaf a mis Medi 2019.

## 2.6 Adroddiad Blynyddol Drafft Cyngor Sir Caerfyrddin ar Gyfer 2018/2019

Fel y cyfeiriwyd ato yn 2.3 uchod, bu'r Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2019 yn ystyried adroddiad blynyddol drafft y Cyngor ar gyfer 2018/19. Wrth gymeradwyo'r adroddiad hwnnw, cyfeiriodd y Pwyllgor at y manteision posibl a allai ddeillio pe bai'r Cyngor yn cyflwyno trwyddedau pysgota ar gyfer dyfroedd o dan ei reolaeth.

Argymhellodd y Pwyllgor i'r Bwrdd Gweithredol/Cyngor y dylid cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol. Gofynnodd hefyd i ymchwilio i'r posibilrwydd o hyrwyddo cyfleoedd pysgota ar draws y Sir.

### **Canlyniad:**

Cafodd yr adroddiad blynyddol ei gymeradwyo gan y Bwrdd Gweithredol a'r Cyngor yn eu cyfarfodydd ym mis Medi a Hydref 2019 yn y drefn honno.

Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am gyflwyno trwyddedau pysgota mewn Sesiwn Ddatblygu a gynhaliwyd ym mis Tachwedd, 2019.

## 2.7- Adroddiad Monitro Blynyddol 2018/19 - Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin a Fabwysiadwyd

Ym mis Gorffennaf 2019, cafodd y Pwyllgor y cynllun uchod, sef y pedwerydd cynllun a luniwyd yn unol â gofynion Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a Rheoliadau Datblygu Lleol (CDLI) 2016, a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyflwyno eu Hadroddiadau Monitro Blynyddol i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref bob blwyddyn.

Trafododd y Pwyllgor amrywiaeth eang o faterion sy'n berthnasol i weithrediad y cynllun. Roedd y rhain yn cynnwys:-

- Dynodi Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer yn Llandeilo, Caerfyrddin a Llanelli,
- Cynlluniau Lleoedd yn dod i'r amlwg drwy'r Agenda Cynllunio Cadarnhaol a Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

Cymeradwyodd y Pwyllgor yr adroddiad i'w gyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol a'r Cyngor i'w gymeradwyo, cyn ei anfon ymlaen at Lywodraeth Cymru.

### **Canlyniad:**

Yn eu cyfarfodydd a gynhaliwyd ym mis Medi a mis Hydref 2019, cymeradwyodd y Bwrdd Gweithredol a'r Cyngor yr adroddiad blynyddol i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref.

## 2.8. Adroddiad Blynyddol 2018-19 Ynghylch Cwynion a Chanmoliaeth

Ym mis Hydref 2019, roedd y Pwyllgor wedi derbyn a chymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Cyngor ynghylch Cwynion a Chanmoliaeth ar gyfer 2018/19, gan roi sylw penodol i Adrannau 10.4 a 10.6 o'r adroddiad, sy'n berthnasol i'w gylch gwaith.

Roedd yr adroddiad yn manylu ar nifer o ffactorau allweddol a oedd yn cynnwys:-

- Nifer y cwynion yr ymchwiliwyd ac ymatebwyd iddynt rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2019 fesul adran
- Cwynion yr oedd yr Ombwdsmon yn penderfynu arnynt
- Crynodeb o ymholiadau gan Gyngorwyr

### **Canlyniad:**

Derbyniodd y Pwyllgor yr Adroddiad Blynyddol.

## 2.9 Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2018/19(Cynllunio)

Ym mis Hydref 2019, ystyriodd y Pwyllgor pedwerydd Adroddiad Perfformiad Blynyddol yr Awdurdod ar Gynllunio ar gyfer y cyfnod Ebrill 2018 - Mawrth



2019, a gynhyrchwyd yn unol â gofynion Tabl y Fframwaith Perfformio Cynllunio a oedd i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref.

Trafododd y Pwyllgor amrywiaeth eang o faterion sy'n berthnasol i berfformiad yr Is-adran. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Nid yw'r lefelau incwm o'r ffioedd cynllunio yn bodloni targedau'r gyllideb,
- Y cynnydd yn nifer cyfartalog y diwrnodau a gymerir i benderfynu ar geisiadau cynllunio

**Canlyniad:**

Derbyniwyd yr adroddiad a chafodd ei anfon ymlaen i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref, 2019.

## 2.10 Fersiwn Adneuol Drafft o Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018-2033

Ym mis Hydref 2019, ymgynghorwyd â'r Pwyllgor ar Fersiwn Adneuol Drafft o Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018-2033

Trafododd y Pwyllgor amrywiaeth eang o faterion a oedd yn berthnasol i'r Drafft Adneuo a oedd yn cynnwys:-

- Cefnogi cynlluniau datblygu a fyddai'n cyfrannu at gynaliadwyedd cymunedau gwledig.
- y cynnydd mewn lefelau mudo, yn enwedig yn y grŵp oedran 30-44 oed
- nifer posibl y safleoedd ymgeisio i'w cynnwys yn y cynllun
- defnyddio coridorau rheilffyrdd segur
- penderfynu ar gynlluniau a gyflwynwyd o dan y CDLI presennol wrth i'r Cynllun Diwygiedig fynd ymlaen i gael ei fabwysiadu
- polisïau ynni adnewyddadwy
- cynnwys yn y Drafft Adneuo gynigion y Cyngor i adeiladu 900 o dai newydd dros gyfnod o 10 mlynedd

Cymeradwyodd y Pwyllgor y Fersiwn Drafft o'r Adneuo ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus

**Canlyniad:**

Yn eu cyfarfodydd a gynhaliwyd ym mis Medi a mis Hydref 2019, cymeradwyodd y Bwrdd Gweithredol a'r Cyngor Fersiwn Drafft o'r Adneuo i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru

## 2.11 Credyd Cynhwysol - Y wybodaeth ddiweddaraf i Sir Gaerfyrddin

Ym mis Tachwedd 2019, yn unol â'i benderfyniad ym mis Chwefror 2019, derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniad ar gyflwyno'r credyd cynhwysol yn Sir Gaerfyrddin. Darparwyd y cyflwyniad gan Is-adran Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel y Cyngor ynghyd â chynrychiolwyr o'r Adran Gwaith a Phensiynau a Chyngor ar Bopeth Sir Gaerfyrddin.

Trafododd y Pwyllgor nifer o faterion a oedd yn codi o'r cyflwyniadau, er enghraifft:-

- defnydd cynyddol o fanciau bwyd
- y cynnydd mewn ôl-ddyledion rhent
- y cymorth sydd ar gael i gyn-filwyr y lluoedd arfog
- nifer y bobl sy'n cysgu ar y stryd

**Canlyniad:**

Cafodd y Pwyllgor y cyflwyniad a gofynnodd am i seminar gael ei threfnu ar gyfer yr Aelodau ar ôl i'r Credyd Cynhwysol gael ei gyflwyno yn Sir Gaerfyrddin. Trefnwyd cynnal y seminar ar 8 Ebrill, 2020, ond cafodd ei gohirio i ddyddiad yn y dyfodol oherwydd y pandemig Coronafeirws.

## 2.12 Canlyniadau Arolwg Tenantiaid y Cyngor (STAR) 2019

Ym mis Ionawr 2020, cafodd y Pwyllgor ganlyniadau Arolwg Tenantiaid y Cyngor 2019, a gomisiynwyd gan yr Awdurdod ac a gynhaliwyd gan ARP Research. Arolygwyd tua 5,000 o denantiaid a derbyniwyd dros 2,000 o ymatebion. Nodwyd mai'r cyfraddau bodlonrwydd allweddol oedd:

- Gwasanaethau'r Cyngor - 82%
- Ansawdd cartrefi - 79%
- Gwerth am arian y rhent - 77%
- Gwerth yr arian o ran y tâl gwasanaethau - 67%
- Yn gwrando ac yn gweithredu ar safbwyntiau - 64%
- Gwaith atgyweirio a gwaith cynnal a chadw cyffredinol - 75%
- Cwblhau'r atgyweiriad diwethaf - 79%
- Y gymdogaeth fel lle i fyw - 85%
- Gwasanaeth cynnal tiroedd - 66%
- Ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol - 58%

**Canlyniad:**

Rhoddyd yr adroddiad gerbron y Pwyllgor.

## 2.13 – Safonau Llyfrgell Gyhoeddus Cymru 2017-2020

Ym mis Ionawr 2020, derbyniodd y Pwyllgor asesiad Llywodraeth Cymru ynghylch gweithredu Gwasanaeth Llyfrgelloedd Sir Gaerfyrddin ar gyfer 2018/19. Nodwyd bod y Gwasanaeth yn bodloni pob un o'i hawliau craidd yn llawn.

**Canlyniad:**

Derbyniwyd yr adroddiad

## 2.14 Cyfrif Refeniw Tai a Phennu Rhenti Tai 2020/21

Ym mis Chwefror 2020, ystyriodd y Pwyllgor y Cyfrif Refeniw Tai (HRA) a Phennu Rhenti Tai ar gyfer 2020/21, a gyflwynwyd fel rhan o'r broses ymgynghori ynghylch y gyllideb. Roedd yr adroddiad yn adlewyrchu'r cynigion diweddaraf a oedd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai, sef y prif offeryn cynllunio ariannol ar gyfer darparu Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy (STSG+).

Mynegodd y Pwyllgor nifer o faterion yn ymwneud â'r adroddiad a oedd yn cynnwys: ôl-ddyledion rhent sy'n deillio o gyflwyno Credyd Cynhwysol, tai gwag, a datgarboneiddio tai cyngor, rhai presennol a rhai newydd, yn unol ag ymrwymiad y Cyngor i fod yn garbon sero-net erbyn 2030 a thargedau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar leihau allyriadau carbon. Cymeradwyodd y Pwyllgor yr adroddiad a'r cynnydd arfaethedig mewn rhent i'r Bwrdd Gweithredol a'r Cyngor i'w hystyried fel rhan o gyflwyniad y gyllideb i'r Cyngor

#### **Canlyniad:**

Cafodd y cynigion y gyllideb ynghylch pennu Rhenti Tai eu mabwysiadu gan y Bwrdd Gweithredol a'r Cyngor yn eu cyfarfodydd ym mis Chwefror a Mawrth, 2020 yn y drefn honno

### 2.15 Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy (STSG+) – 'Cyflawni'r Hyn sydd o Bwys'

Ym mis Chwefror 2020, ystyriodd y Pwyllgor gynllun Rhaglen Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy ar gyfer 2020-2023. Hysbyswyd yr Aelodau mai tri phrif amcan y cynllun oedd:

- esbonio ei ddarpariaeth dros y tair blynedd nesaf a'r hyn a olygai i denantiaid
- cadarnhau'r proffil ariannol, yn seiliedig ar y rhagdybiaethau presennol, ar gyfer cyflawni dros gyfnod y cynllun
- Llunio cynllun busnes ar gyfer y cais blynyddol i Lywodraeth Cymru am Lwfans Atgyweiriadau Mawr ar gyfer 2017/18, sy'n dod i £6.1m

#### **Canlyniad:**

Yn dilyn hynny cymeradwywyd yr adroddiad gan y Bwrdd Gweithredol a'r Cyngor yn eu cyfarfodydd ym mis Chwefror a Mawrth 2020 yn y drefn honno.

### 2.16 Gorchwyl a Gorffen

#### **“Adolygiad ar ddarparu Byngalos Fforddiadwy yn Sir Gaerfyrddin, ”**

Roedd y Pwyllgor eisoes wedi cytuno i gynnal adolygiad gorchwyl a gorffen ynghylch darparu Byngalos Fforddiadwy yn Sir Gaerfyrddin. Cyfarfu'r grŵp bum gwaith gan ystyried ystod eang o faterion a gwybodaeth am y ddarpariaeth

o ran tai cymdeithasol y Cyngor. Ar ôl gwerthuso'r holl wybodaeth a gyflwynwyd iddo ar amrywiaeth y ddarpariaeth o ran tai'r Cyngor ac anghenion y tenantiaid a oedd yr un mor amrywiol, daeth y grŵp i'r casgliad nad oedd yn bosibl nodi rhesymeg dros ateb y galw am un math o dŷ uwchlaw gofynion eraill a chytunwyd na ddylai'r arolwg symud ymlaen i adroddiad llawn.

Roedd y grŵp yn cynnwys y canlynol yn y lle cyntaf

- Y Cyngorydd Sharen Davies (Cadeirydd)
- Y Cyngorydd Gareth Thomas Is-gadeirydd
- Cyng. Jeanette Gilasbey
- Y Cyngorydd Betsan Jones
- Y Cyngorydd Irfon Jones
- Y Cyngorydd Deryk Cundy

## 2.17 Ymweliadau Safle

Yn rhan o'i Flaenraglen Waith 2019/20, cynhaliodd y Pwyllgor ymweliadau safle â'r canlynol:

**Canolfan Hamdden Sanclêr-** yng nghanol cymuned Sanclêr mae'r ganolfan hamdden yn denu tua 40,000 o ymwelwyr y flwyddyn ac roedd yn un o sawl Canolfan y mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn berchen arni ac yn ei gweithredu. Bu'r Pwyllgor yn astudio cyfleusterau'r ganolfan a'u cyflwr a nododd fod cynigion yn cael eu harchwilio ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol er mwyn cynyddu lefelau cyfranogiad.

**Y Gât, Sanclêr-** mae'r Gât yn Heol yr Orsaf, Sanclêr a adeiladwyd ynghanol y 19<sup>eg</sup> ganrif fel melin ac mae'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd fel canolfan gymunedol a chreffft dros dri llawr.

**Canolfan Addysg Awyr Agored Pentywyn** – mae'r ganolfan yn agos at draeth Pentywyn, ac mae'n darparu pecynnau gweithgareddau preswyl i blant ifanc, yn draddodiadol grwpiau ysgol, am hyd at bum diwrnod o ddydd Llun – dydd Gwener gan ymgymryd â rhaglen o weithgareddau awyr agored ac astudiaethau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â chwricwlwm yr ysgol.

Bu'r Pwyllgor yn edrych ar gyflwr seilwaith y Ganolfan a nododd fod gwaith yn cael ei wneud i werthuso ei ddefnydd yn y dyfodol a gofynion buddsoddi posibl.

### **Canlyniad:**

Nododd y Pwyllgor fod adolygiadau'n cael eu cynnal ar opsiynau cyflenwi ar gyfer y tri safle yn y dyfodol, ac y byddai'r rheini'n cael eu hadrodd yn 2020/21

## 2.18 Sesiynau Datblygu

Cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn ddatblygu ym mis Tachwedd 2019 lle y cafodd gyflwyniadau ar y canlynol:-

## 1. Trwyddedau pysgota:-

Yn cynnwys datblygu pysgota cymunedol yn benodol mewn ardaloedd o ddŵr/dyfrffyrdd o dan reolaeth y Cyngor lle y gellid cynnal pysgota a'r mesurau angenrheidiol a fyddai angen eu cyflwyno er mwyn caniatáu ar gyfer y defnydd hwnnw

## 2. Marchnad da byw Nant y ci:-

Y wybodaeth ddiweddaraf am weithrediad y farchnad

Cynhaliwyd y sesiynau datblygu / seminarau canlynol i aelodau yn ystod 2019/20:-

- Hyfforddiant Mod.Gov (wedi'i gyflwyno gan Civica) – Mai
- Seminar Bergen Ddinesig Bae Abertawe – Mehefin
- Seminar Gwrthderfysgaeth a Llinellau Sirol – Mehefin
- Seminar Cadwraeth a Bioamrywiaeth – Mehefin
- Pentref Llesiant a Gwyddor Bywyd – Gorffennaf
- Hyfforddiant Côt Ymddygiad - Gorffennaf
- Canfod Cartref – Gorffennaf
- Digwyddiad Fforwm Blynyddol 50+ Sir Gaerfyrddin – Medi
- Grantiau Addysg - Hydref
- Cyllideb Ysgolion – Tachwedd
- Seminar Cysylltedd Digidol – Rhagfyr
- Seminar Cynllun Carbon Sero-net - Ionawr
- Llywodraethu Cronfa Bensiwn Dyfed a Buddsoddiadau - Mawrth

Yn ogystal â'r uchod, cynhaliwyd nifer o seminarau adrannol ynghylch y gyllideb yn ystod Tachwedd/Rhagfyr 2019 fel rhan o broses ymgynghori'r Cyngor ar y Gyllideb Refeniw o 2020/21 a'r Rhaglen Gyfalaf bum mlynedd.

## 2.19 Atgyfeiriadau

Gwnaeth y Pwyllgor un atgyfeiriad yn ystod 2019/20 i'r Bwrdd Gweithredol, fel rhan o'r ymgynghoriadau ar gyllideb refeniw 2020/21, gan ofyn iddo ariannu'r gost amcangyfrifedig o £150k er mwyn i ysgolion cynradd ddarparu gwersi nofio fel rhan o gwricwlwm Cyfnod Allweddol 2, gyda'r gost yn cael ei thalu o'r £293k oedd wrth gefn yn strategaeth y gyllideb.Ni chafodd y cais ei ystyried fel rhan o'r Gyllideb.

## 3. Heriau

Yn dilyn adolygiad o'i aelodaeth yn gynnar yn 2019, roedd yr aelodau newydd wedi gweithio gyda gweddill y Pwyllgor i wynebu blwyddyn heriol, gan fynd i'r afael ag ystod eang o bynciau, yn rhai corfforaethol a rhai sy'n benodol i'w gylch gwaith, gan gyfrannu at eu perfformiad a gwneud sylwadau arnynt a'r modd yr oeddent yn cael eu cyflawni er mwyn darparu gwasanaethau'n well.

## 4. Gwaith yn y Dyfodol

Mae'r Pwyllgor wedi gwneud cynnydd sylweddol a bydd yn parhau i ganolbwyntio ar bynciau lle bydd cyfraniadau'r Aelodau'n arwain at ganlyniadau cadarnhaol i ysgogi gwelliannau yn y gwasanaeth. Er mwyn sicrhau y gwneir y defnydd gorau o amser y cyfarfodydd ynghyd â'r fantais ychwanegol o gynnal rhag-gyfarfodydd, mae'r Pwyllgor yn awyddus i sicrhau proses fwy syml o graffu.

Bydd gwaith y Pwyllgor ar gyfer y dyfodol yn cael ei ystyried fel rhan o sesiwn cynllunio'r Flaenrhaglen Waith. Bydd y Flaenrhaglen Waith yn parhau i gael ei monitro yn ystod y flwyddyn, ynghyd â Blaenraglen Waith y Bwrdd Gweithredol.

## 5. Cefnogi'r Swyddogaeth Graffu

Mae'r cymorth a roddir i swyddogaeth graffu Cyngor Sir Caerfyrddin yn cael ei ddarparu gan yr Uned Gwasanaethau Democrataidd yn yr Is-adran Gweinyddiaeth a'r Gyfraith yn Adran y Prif Weithredwr.

Mae'r cymorth a roddir i'r swyddogaeth graffu yn cynnwys y canlynol:

- Llunio agendâu yn unol â'r Flaenraglen Waith a'u dosbarthu ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu o leiaf 4 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod;
- Darparu cymorth a chyngor cyfansoddiadol i'r Pwyllgorau Craffu ac i aelodau'r Pwyllgorau hynny yn ogystal â llunio cofnodion eu cyfarfodydd a sicrhau bod materion sy'n codi o'r cyfarfodydd hynny yn cael eu gweithredu;
- Rhoi cymorth a chyngor mewn perthynas â swyddogaethau Pwyllgorau Craffu'r Cyngor i aelodau gweithredol ac anweithredol y Cyngor a'i swyddogion;
- Rheoli datblygiad strategol y swyddogaeth Graffu yn Sir Gaerfyrddin trwy ymwneud â rhwydweithiau a mentrau Craffu cenedlaethol a rhanbarthol, cefnogi Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu, a chyfarfodydd y Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion gyda'r Bwrdd Gweithredol;
- Rhoi cyngor a chymorth yn y gwaith o weithredu gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 wrth i'r canllawiau gael eu cyhoeddi;
- Rheoli cydlynid a datblygiad blaenraglenni gwaith y Pwyllgorau Craffu ar y cyd ag aelodau'r Pwyllgorau Craffu;
- Rheoli a chydlynu gwaith adolygu'r swyddogaeth Graffu, gan gynnwys gweinyddu grwpiau gorchwyl a gorffen ym maes craffu, cynorthwyo i lunio adroddiadau ar y cyd â'r grwpiau, a chynorthwyo i weithredu a monitro'r adolygiadau a gwblhawyd;
- Cynorthwyo â rhaglen datblygu aelodau'r pwyllgorau craffu.

I gael rhagor o wybodaeth am graffu yn Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys blaenraglenni gwaith, adroddiadau gorchwyl a gorffen ac adroddiadau blynyddol, ewch i wefan y Cyngor Sir: [www.sirgar.llyw.cymru/craffu](http://www.sirgar.llyw.cymru/craffu)

I gysylltu â'r Uned Gwasanaethau Democrataidd, ffoniwch 01267 224028 neu anfonwch neges e-bost at [craffu@sirgar.gov.uk](mailto:craffu@sirgar.gov.uk)

## 6. Presenoldeb

Mae presenoldeb Aelodau'r Pwyllgor Craffu - Cymunedau yn ystod blwyddyn 2019/20 yn cael ei ddangos yn y tabl isod. Cynhaliwyd cyfanswm o 6 chyfarfod rhwng mis 1 Mai 2019 a 30 Ebrill 2020 yn hytrach na'r 7 a drefnwyd yn wreiddiol gyda chyfarfod mis Ebrill 2020 yn cael ei ganslo oherwydd pandemig y coronafeirws.

<b>Aelod y Pwyllgor Craffu</b>	<b>Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd</b>	<b>%</b>
Y Cynghorydd Fozia Akhtar	5	83
Y Cynghorydd Ann. Davies	4	67
Y Cynghorydd Anthony Davies	4	67
Y Cynghorydd H. Davies	6	100
Y Cynghorydd C. Evans	2	33
Y Cynghorydd R. Evans	6	100
Y Cynghorydd J. Gilasbey	6	100
Y Cynghorydd. B. Jones	5	83
Y Cynghorydd H. Jones	5	83
Y Cynghorydd S. Matthews	5	83
Y Cynghorydd H. Shepardson	6	100
Y Cynghorydd A. Speake (o 8 Ionawr 2020)	2	33
Y Cynghorydd Gareth Thomas	5	83
Y Cynghorydd A. Vaughan Owen (hyd at 8 Ionawr 2020)	2	33
<b>Dirprwyon</b>	<b>Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd</b>	
Y Cynghorydd S.M. Allen	2	
Y Cynghorydd Mansel Charles	1	
Y Cynghorydd W. T. Evans	3	
Y Cynghorydd M.J.A. Lewis	1	
Y Cynghorydd Ken Lloyd	1	
<b>Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol</b>	<b>Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd</b>	
Y Cynghorydd Emlyn Dole	2	
Y Cynghorydd L.D. Evans	6	
Y Cynghorydd Mair Stephens	1	
Y Cynghorydd P.H. Griffiths	3	
Y Cynghorydd D. Jenkins	3	